



## **Newyddion Gwasanaeth Ambiwylans Cymru – Hyrddiad Gwybodaeth Arbennig Ionawr 2021**

### **STRATEGAETH ANSAWDD**

Rydym wedi ysgrifennu ein 'Strategaeth Ansawdd' i egluro beth mae Ansawdd yn ei olygu i ni fel Gwasanaeth Ambiwylans a sut rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn cyflawni ansawdd o fewn ein gwasanaeth yn y blynyddoedd 2021-2024.

Mae ansawdd yn allweddol i ffordd o weithio sy'n sicrhau ein bod yn darparu'r gofal iechyd cywir, diogel, amserol, person-ganolog, wedi'i drefnu'n dda, a'n bod yn parhau i ddysgu o brofiadau pobl.

Mae ansawdd yn fwy na chyrraedd safonau gwasanaeth yn unig; Mae ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn ac mae'n ffactor pwysig wrth sicrhau bod ein gwasanaethau'n cwrdd â disgwyliadau pobl.

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos pa mor ymatebol y gallwn fod mewn sefyllfaoedd argyfwng. Mae wedi dangos cefnogaeth ysgubol y cyhoedd i'n gwasanaethau. Mae hefyd wedi dangos lle y gellir gwella ansawdd, fel y gallwn gyflawni ein nodau, wrth inni ddod allan o'r pandemig ac i mewn i'r 'normal newydd'.

Cefnogir datblygiad ein strategaeth gan ofynion deddfwriaethol newydd. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, ("y Ddeddf"), yn gosod cyfrifoldeb pellach ar sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru i wella ansawdd a thryloywder.

Mae'r Ddeddf yn darparu Dyletswydd Ansawdd, Dyletswydd Candor i ni, ac mae hefyd yn sefydlu Llais Dinasyddion, i wella ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'r gymuned.

Mae rhaid i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio â'r Ddeddf, a'i nod yw gwneud hynny yn y ffyrdd a ganlyn;



### **Dyletswydd Ansawdd**

Bydd y Ddyletswydd Ansawdd yn golygu y bydd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) gyfrifoldeb i feddwl am:

- Sut y budd unrhyw newidiadau i'r Ymddiriedolaeth yn effeithio ar bobl sy'n defnyddio ei gwasanaethau.
- Sut y bydd gwelliannau a/neu newidiadau yn gwella gwasanaethau iechyd.

Mae'r ddyletswydd ansawdd yn golygu y bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu systemau sy'n gyrru gwella ansawdd yn barhaus. Bydd hyn yn golygu bod angen gwneud newidiadau i'r prosesau a ddilynwn ac y bydd angen i bobl gydymffurfio â'r Ddyletswydd.

### **Sut y byddwn yn gwneud hyn?**

- Ymgysylltu â'n pobl ar ein Dyletswydd a'u haddysgu;
- Datblygu ein swyddogaethau ansawdd o fewn strwythurau'r sefydliad;
- Datblygu systemau gwaith sy'n ymatebol ac a fydd yn hyrwyddo gwelliant;
- Monitro ac adrodd ar welliannau.



### **Dyletswydd Candor (Bod yn Agored)**

Pan aiff pethau o chwith wrth ddarparu gofal, rhaid inni fod yn onest wrth hysbysu cleifion a'u teuluoedd.

Bydd rhwymedigaeth ar yr Ymddiriedolaeth i ddarganfod beth aeth o'i le a sicrhau nad yw'r un camgymeriad yn digwydd eto. Rhaid cyflawni hyn heb dynnu sylw at y bai.

### **Sut y byddwn yn gwneud hyn?**

- Ymgysylltu â'n pobl ar ein Dyletswydd a'u haddysgu;
- Dylanwadu a datblygu'r diwylliant sefydliadol trwy ein harweinyddiaeth, ymrwymadau a strategaethau pobl a diwylliant;
- Datblygu systemau gwaith sy'n ymatebol ac a fydd yn hyrwyddo gwelliant;
- Monitro ac adrodd ar welliannau.



## Llais Dinasyddion

Mae'r Ddeddf yn sicrhau y gall pobl yng Nghymru ddweud a ydyn nhw'n hapus neu'n anhapus gyda'r gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol maen nhw'n eu derbyn.

Bydd y Corff Llais Dinasyddion yn disodli'r Cynghorau Iechyd Cymunedol.

Bydd y Corff Llais Dinasyddion yn gallu:

- gofyn i bobl beth yw eu barn am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- eich helpu os bydd angen i chi gwyno am eich gofal;
- gwahodd gwirfoddolwyr i helpu gyda'i waith.

Bydd rhwymedigaeth ar yr Ymddiriedolaeth i ymgysylltu â'r Corff Llais Dinasyddion, a gwranddo ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud am ddarparu gwasanaethau a phrofiadau pobl sy'n eu defnyddio.

## Sut y byddwn yn gwneud hyn?

- Adeiladu ar gryfder ein tîm Profiad Clefion a Chynnwys y Gymuned;
- Datblygu strwythur a system ffurfiol i ymgysylltu â'r Corff Llais Dinasyddion, clefion a defnyddwyr gwasanaethau ar draws gwahanol gymunedau;
- Cynnwys ac ymgysylltu â dinasyddion i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella a datblygu gwasanaethau, trwy ein 'Rhwydwaith i-Mewn' newydd.

Os hoffech chi ymuno â'r Rhwydwaith i-Mewn a dod yn aelod gallwch wneud hynny trwy glicio ar y ddolen hon: <https://bit.ly/3019FvV>

Gallwch ddarllen mwy am Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), drwy glicio ar y ddolen hon: <https://bit.ly/3cbXymM>

## Cysylltwch â ni:

Tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned

Ffôn: 01792 311773

E-bost: [Peci.team@wales.nhs.uk](mailto:Peci.team@wales.nhs.uk)

Evch i'r dudalen Cymryd Rhan ar ein gwefan [www.ambulance.nhs.uk](http://www.ambulance.nhs.uk)

Twitter: @WelshAmbPIH